

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 4 o Fawrth, 2021 drwy 'Zoom', am 8:00 y.h.

Nid oedd yn bosib cynnal cyfarfod cyffredin yn y man arferfol, oherwydd y 'COVID 19'.

Yn bresennol drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Aled Davies (Cadeirydd), Aled Evans, Thomas Prys Jones, Margaret Griffith, Tegid Jones, Angela Williams, Sian Angharad Parry, Darren Morley, William Ifor Hughes, Gareth O. Davies, Naomi Jones, Ceri Jones a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**: Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Anwen Jones, Sion Aled Jones, a Trefor Wyn Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 4ydd o Chwefror 2021, (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 04.03.2021).

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Chwefror 2021 - (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi cyn y cyfarfod ar 04.03.2021).

4. **Datgan buddiant personol -**
Cynghorydd Aled Evans, datgan buddiant personol o dan rhif 7, sef cais cynllunio Talar Deg, Chwilog oherwydd ei fod yn ffrind i'r ymgeisydd.

Cynghorydd Aled Davies, datgan buddiant personol o dan rhif 7, sef cais cynllunio Talar Deg, Chwilog oherwydd ei fod yn ffrind personol i'r ymgeisydd.

Cynghorydd Margaret Griffith, datgan buddiant personol o dan rhif 7, sef cais cynllunio Talar Deg, Chwilog oherwydd ei bod yn adnabod yr ymgeiswyr yn dda.

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**
Cau Ffordd Dosbarth III o groesffordd Ty Newydd, Y Ffor i gyfeiriad Glanerch ar y 10fed o Chwefror, 2021 - Argyfwng - adnewyddu 'cebl' rhwydwaith uwchben i gwsmer cyfagos. Derbyn.

6. **Toiledau Cyhoeddus Llanystumdwy** - llythyr gan Ms Amanda Murray, Peiriannydd Grwp Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn dweud na fydd yn anfon cytundeb o'r newydd yn flynyddol o hyn ymlaen oherwydd nid oedd newid yn y cytundeb bresennol. Derbyn.

7. **Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

Cais rhif:C21/0110/41/LL - Talar Deg, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6SX - cais llawn i ddymchwel strwythurau presennol a chodi anecs gyda ystafell haul ar y llawr isaf ac estyniad llawr cyntaf i gynnwys ystafell wely ychwanegol i'r prif annedd dŷ.
Cefnogi.

8. **Biniau halen** o fewn y gymuned - mae 5 ohonynt:-

- Ger Gwyddfôr, Chwilog.

- Pentyrch Uchaf, Llangybi.
- Rhwng y Bont a Chapel y Beirdd, Bryn Beddau, Rhoslan.
- Tan yr Erw, Lon Gefn, Llanystumdwy.

Mae angen cadw golwg ar faint o halen sydd ynddynt yn gyson yn ystod y gaeaf, a gadael i'r Clerc wybod os oes angen ei llenwi – pob un yn iawn, ond y Clerc wedi hysbysu'r Cyngor fod angen llenwi un Bryn Beddau.

9. Lwfansau Cynghorydd rhwng 1af Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021- Y Clerc wedi derbyn pob ffurflen yn nol ac nid oedd neb eisiau cymeryd y lwfans. Mae'r lwfans a gynnigir yn £150.00 eto am y flwyddyn 01.04.2021 ymlaen, oherwydd fod incwm neu wariant y Cyngor yn is na £30,000.00 rhwng 01.04.2020-31.03.2021.

10. Canllawiau drafft newydd Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cynghorau Sir a Chymuned/Tref gan yr Ombwdsmon – fe ofynwyd i bawb ei ddarllen o flaen y cyfarfod, er mwyn bod yn ymwybodol o'i gynnwys.

12. 'SLCC' – epost yn dweud ei bod wedi gofyn am yr hawl i gynghorau allu parhau i gynnal cyfarfodydd 'o bell' drwy'r wé, yn dilyn 07.05.2021. Mae Un Llais Cymru yn gobeithio y bydd yn bosib parhau hefo'r opsiwn yma yn y dyfodol hefyd oherwydd ei fod wedi bod yn llwyddianus. Nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud eto.

13. Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor Un Llais Cymru – 10.02.21 drwy 'Star Leaf', roedd Angela Jones, Rheolwr Partneriaethau Parc Cenedlaethol Eryri yn siaradwraig wadd. Eglurodd ei bod yn gweithio ar 'Gynllun Eryri', sydd yn edrych ar y sefyllfa, yn enwedig yn dilyn y problemau a ddaeth i'r amlwg llynedd o amgylch yr Wyddfa. Mae'r cynllun i'w weld ar ei gwefan, ac yn mynd i warchod a gwella harddwch naturiol, yr iaith, diwylliant, swyddi, tai fforddiadwy, iechyd a llesiant yr ardal, trafndiaeth, cymunedau ac economi Eryri. Bydd y cyfarfod nesaf ar 07.04.2021, lle byddant yn trafod 'archwilio' a thrafnidiaeth dros Gymru-rheilffyrdd. Derbyn.

Materion yn y gymuned.

14. Llanystumdwy

Giat bach wyrdd - ar draws y lon i fynedfa Abercin, nid yw'n cau, felly y Clerc wedi anfon bost at Cyngor Gwynedd. Cafwyd gwybodaeth fod y giat wedi cael ei thrwsio.

15. Rhoslan/Ynys

Mae ffosydd angen eu hagog, cwteri eu clirio (a ffendio ambell un mewn drysni) a manau pasio angen 'sweeper' i glirio dail a phydredd. Mae'r sefyllfa yn ddrwg iawn, o fynedfa Tyddyn Crythor i fynedfa Capel y Beirdd.

Mae pobol yn ofni mynd i'r ochor mewn manau pasio gyda'i ceir gan eu bod yn amau eu bod yn mynd i le meddal a mynd yn sownd. Mae gwyneb caled i rai manau pasio ond fod dail ac ati yn un haen o faw gwlyb ar eu gwyneb ac angen ei glirio. **Y Clerc wedi cysylltu hefo'r adran berthnasol, ond heb dderbyn ymateb eto.**

16. Chwilog

Mae darn peryglus o ffos rhwng Chwilog Fawr a Gwag y Noe, a ochr y ffordd yn gwano i'r ffos. Mae angen sylw. **Y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd.**

17. Pencaenewydd/Sardis

18. Llangybi

Arwydd bach 30 m.y.a rhwng Capel Helyg a Groeslon 'Refail, Llangybi wedi cael ei drwsio.

19. **Enwau lleol** - gosod arwyddion o enwau lleol yn y gymuned, sef enwau pontydd, afonydd, enw cynhenid ambell groesffordd, a'i gwneud yn weledol i bawb ei gwybod a'i defnyddio i'r dyfodol.

Y Clerc wedi trafod hefo Mr Osian Richards, Ymgynghoriaeth ac wedi edrych ar 'mapiau Gwynedd', ac mae'r 2 bont, Pont Rhydybenllig a Pont Rhydycroesau wedi cael ei cofrestru ('listed'), fel Dosbarth II, felly roedd angen caniatâd gan Ms Eryl Williams, Uwch Swyddog Cadwraeth, Cyngor Gwynedd gyntaf - y Clerc yn disgwyl ateb yn nol ganddi.

Nid oedd Pont Hendre-garcin wedi cael ei chofrestru, a nid oedd Pont Rhyd yr Eirin wedi cael ei glustnodi fel pont ar mapiau Gwynedd.

Materion Ariannol

20. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 04.03.2021. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud, ac y rhagwelir sydd angen ei wneud erbyn diwedd Mawrth 2021. Y Clerc wedi mynd â'r biliau i gyd at y Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi o flaen y cyfarfod.

21. **Cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned** - wedi derbyn taliad o £417.80 ar 24.02.201. Mae'r trefniant ad-dalu wedi cael ei gyfyngu i lwybrau categori 1 a 2.

22. **Archwilio mewnol** - wedi derbyn ateb gan Adran Archwilio Cyngor Gwynedd yn dweud ei bod yn fodlon gwneud yr archwiliad am y flwyddyn sy'n dod.

23. Cwmni Lightsource, fferm solar Tyddyn Gwyn, Gelli Gron - wedi derbyn **taliad £3996.20 ganddynt ar 19.02.2021**, ac fe gafodd ei dalu i'r cyfrif Budd Cymunedol.

24. Llythyrau/e-byst yn diolch am gyfraniadau ariannol gan y Cyngor Cymuned Llanystumdwy:-

1. Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi.
2. Mynwent Newydd Llanystumdwy
3. Mynwent Capel Helyg, Llangybi
4. Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog
5. Neuadd Goffa Chwilog
6. Clwb Peldroed Llanystumdwy
7. Clwb Garddio Ysgol Llangybi
8. Cylch Meithrin Llangybi
9. Cylch Meithrin Chwilog
10. Menter y Plu
11. Dawns i Bawb
12. Ffermwyr Ifanc Eryri
13. Mynwent Tai Duon
14. *Radio Ysbyty Gwynedd (heb gael ei manylion banc eto i wneud taliad).*
15. Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2022, Sir Ddinbych
16. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru

25. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod 04.03.2021:

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris £	TAW	Cyfanswm Taliad £	Taliad BACS £
Wifi Neuadd Chwilog	O'r cyfrif Budd-cymunedol Mae'r taliad rhwng 01.04.2020 - 31.03.21 (£30.37 x 12 = £364.44 (BT))	<u>364.44</u>		<u>364.44</u>	<u>364.44</u>
Gareth Jones Garden Maintenance	Gofalu am Fedd Lloyd George a'r fynedfa yn ystod 2020	<u>250.00</u>		<u>250.00</u>	<u>250.00</u>
Y Ffynnon (anfoneb rhif M1099)	Hysbyseb rhifyn Tachwedd a Rhagfyr 2020 -hysbysebu cymorth ariannol	<u>28.00</u>		<u>28.00</u>	<u>28.00</u>

Cyflog mis Chwefror 2021 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS :- £
Cyflog sylfaenol y Clerc, Chwefror 2021 35 awr x £10.83 = £379.05	379.05 - Llai treth £76.00 = £303.05	<u>303.05</u>	<u>303.05</u>
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Chwefror 2021	380.00 x 20% = £76.00	<u>76.00</u>	<u>76.00</u>
Costau'r Clerc Chwefror 2021	£16.65	<u>16.65</u>	<u>16.65</u>

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar nos Iau 01.04.2021.

Materion hwyr-- gyda chaniâtad y Cadeirydd cytunwyd i drafod y materion yma ar ddiwedd y cyfarfod.

26. **Cais Cynllunio : Rhif Cais:C21/0141/41/DT - Arosfa, Chwilog, Pwllheli, LL53 6SW - estyniad llawr cyntaf - dim gwrthwynebiad.**